| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mai 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol ar gyfer Datblygu Cymunedol / Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Arweiniol, Hamdden Masnachol** |
| **Teitl:** | **Swyddfa Archwilio Cymru. Darparu gyda Llai (Gwasanaethau Hamdden)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn crynhoi adroddiad SAC ac mae'n amlinellu perfformiad Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am adroddiad SAC (Atodiad 1) – y diweddaraf mewn cyfres o adroddiadau o dan y pennawd 'Cyflawni â Llai'.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod:

3.1 y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad a sefyllfa Sir Ddinbych o ran y gwasanaethau hamdden y mae'n eu darparu o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru; a

3.2 dylid parhau i ystyried ac adolygu arfarniad opsiynau ar gyfer gwahanol fodelau gweithredu wrth i'r dirwedd newid.

## 4. Manylion yr adroddiad

**"Mae chwaraeon a hamdden yn rhan annatod o ffordd iach a chytbwys o fyw". Daw'r dyfyniad hwn o linell gyntaf yr adroddiad a gellid dweud ei bod yn fwy gwir heddiw nag erioed o'r blaen. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau'n helpu i leihau'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganserau a diabetes. Gall wella iechyd cyhyrysgerbydol a helpu i reoli pwysau'r corff. Mae cymryd rhan yn llesol i ddatblygiad iechyd meddwl a phrosesau gwybyddol.**

4.1 Tan yn gymharol ddiweddar roedd y ffordd yr oedd 'hamdden' yn cael ei ddarparu ar draws Awdurdodau Lleol yn rhesymol safonol gan fod canolfannau hamdden ar y cyfan yn cael eu hadeiladu, eu cynnal a'u gweithredu gan yr Awdurdodau eu hunain. Yn y blynyddoedd diwethaf mae patrwm darparu gwasanaethau hamdden wedi newid ac mae amryw o fodelau darparu'n cael eu mabwysiadu.

4.2 Yn ôl adroddiad, mae 18 o blith y 22 o gynghorau wedi lleihau'r swm y maent yn ei wario ar wasanaethau hamdden yn y pum mlynedd diwethaf, gyda'r arbedion mwyaf yn y cynghorau hynny sydd wedi trosglwyddo eu cyfleusterau hamdden mwyaf i ymddiriedolaethau. Yn gyffredinol, mae cyllidebau refeniw cynghorau wedi gostwng tua 10% tra bod y gostyngiad mewn gwariant ar wasanaethau chwaraeon a hamdden wedi bod ychydig yn uwch gyda thoriad o 10.5%.

4.3 Y sgil lefel y gostyngiad parhaus a ragwelir, mae'r Swyddfa Archwilio'n ystyried na fydd rhai Awdurdodau Lleol yn gallu cynnal gwasanaethau hamdden yn y tymor canolig i hir a bod yn rhaid i Gynghorau ystyried beth i'w ddarparu a thrwy ba ddull.

Nid dyma'r achos yn Sir Ddinbych, gan ein bod wedi rheoli cyllidebau yn y blynyddoedd diwethaf i ddarparu model gynaliadwy trwy dîm mewnol proffesiynol, medrus iawn. Rydym hefyd wedi llwyddo i fynd ati'n ddarbodus i ehangu neu wella cyfleusterau i'n cwsmeriaid trwy ddilyn adborth cwsmeriaid neu'r astudiaethau galw cudd.

4.4 Anaml y mae cynghorau'n canolbwyntio ar ddangos effaith llesol gwasanaethau hamdden ar iechyd a lles cyhoeddus ac mae rhai cynghorau'n dal heb fod mewn sefyllfa dda i fonitro a gwerthuso eu dulliau o ddarparu hamdden er mwyn targedu gwelliannau a sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn y tymor hir.

**4.5 Modelau Darparu Eraill**

4.5.1 Gyda phwysau cynyddol ar gyllidebau llywodraeth leol, mae nifer o gynghorau'n cwestiynau a yw'n dal yn briodol neu fforddiadwy i fod yn brif ddarparwr hamdden. O ystyried amrywiaeth bresennol y ddarpariaeth, mae angen i awdurdodau sicrhau bod yr hyn y maent yn ei ddarparu'n cael ei werthfawrogi gan bobl leol, yn cyfrannu at amcanion corfforaethol ac yn gost effeithiol .

4.5.2 Mae nifer o wahanol fodelau darparu ar gael ar gyfer hamdden ac mae rhai Cynghorau drwy Gymru naill ai eisoes yn darparu gwasanaethau neu'n ystyried gwneud hynny drwy un o'r modelau hyn.

4.5.3 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi datblygu model proffesiynol, masnachol, hyderus, sy'n cael ei barchu ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden. Mae'n fodel darparu 'mewnol' ond mae iddo ragolygon mwy masnachol nag a ddisgwylid yn draddodiadol.

**4.6. Adroddiad SAC Canfyddiadau Cymru Gyfan**

4.6.1 <u>Yn gyffredinol mae angen gwella cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden wella</u>.

Canfu'r adroddiad fod Cynghorau ar y cyfan yn canolbwyntio gormod ar heriau ariannol byrdymor yn hytrach nag ystyried mewn modd strategol sut i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Er ei fod yn amlwg nad yw Cyngor Sir Ddinbych wedi ei eithrio rhag heriau ariannol cydnabyddir bod gan Gyngor Sir Ddinbych strategaeth yn ei lle gyda nodau a thargedau clir. Hefyd mae'r adroddiad yn cydnabod bod Sir Ddinbych wedi ymgynghori'n eang ar y strategaeth.

Mae'r adroddiad yn tanlinellu:

*"Mae gan Gyngor Sir Ddinbych nod strategol 'erbyn 2020 bydd Sir Ddinbych yn adnabyddus am gyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd yn denu lefelau cyfranogiad uchel yn gwella lles ei thrigolion a'i hymwelwyr.' Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ddarpariaeth fewnol, gan gydnabod y cyfraniad pwysig y gall gwasanaethau hamdden eu gwneud er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a'r budd a ddaw yn eu sgil i breswylwyr lleol. Wrth ddatblygu ei weledigaeth gychwynnol ar gyfer gwasanaethau hamdden yn Sir Ddinbych ymgynghorodd y Cyngor â'i holl aelodau etholedig, cynghorau tref a chyngor, y cyhoedd, a chlybiau chwaraeon. "*

4.6.2 <u>Mae SAC yn awgrymu bod Cynghorau'n cynnal arfarniad o opsiynau manwl er mwyn canfod y model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar y weledigaeth a'r blaenoriaethau y mae'r cyngor wedi cytuno arnynt ar gyfer gwasanaethau hamdden.</u>

Fel yr amlinellwyd uchod, mae gan Sir Ddinbych hanes da o ymgynghori wrth ystyried newid a chydnabyddir fod ganddo drefniadau lywodraethu cadarn, dull hyderus a masnachol sy'n defnyddio data i gyfrannu at fusnes ac mae ganddo ethos rheoli perfformiad cryf.

Ar hyn o bryd ystyrir mai'r model mewnol yw'r dewis gorau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn y Sir, ond fel gydag unrhyw sefydliad sy'n datblygu byddwn yn ystyried yr holl opsiynau wrth symud ymlaen. Ar yr adeg briodol bydd Pennaeth Gwasanaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai'n cyflwyno adroddiad i fodloni'r Cyngor fod y gwasanaeth yn dal yn gynaliadwy a bydd yn ystyried mewn modd cadarn yr holl opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

4.6.3 <u>Canfu SAC fod angen sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden trwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith.</u>

Mae'r adroddiad yn tanlinellu:

**Enghraifft o Arfer Da – Cyngor Sir Ddinbych**

*"Mae'r Cyngor wedi creu 'dangosfwrdd' Gwybodaeth Reoli Chwarterol ar gyfer pob maes gwasanaeth, lle caiff yr holl ganlyniadau eu hadolygu a'u herio. Mae cyfres gynhwysfawr o fesurau wedi cael eu pennu ar gyfer holl ganlyniadau'r cynllun gwasanaeth, sy'n trafod agweddau fel cyfraddau cyfranogi (gan gynnwys grwpiau demograffig penodol), yr incwm a gynhyrchir mewn canolfannau penodol, cyfraddau absenoldeb salwch ac arbedion a wireddwyd.*
*Er mwyn monitro'r defnydd o wasanaethau a'r galw amdanynt, mae Sir Ddinbych hefyd yn defnyddio'r system aelodaeth hamdden. Pan fydd aelodau'n cofrestru, rhoddir cerdyn aelodaeth iddynt y mae'n rhaid ei gyflwyno bob tro wrth ddefnyddio*

*unrhyw gyfleuster. Mae hyn yn darparu gwybodaeth 'amser real' ynghylch lefel y defnydd ym mhob un o'i wyth o gyfleusterau hamdden, gan gynnwys gwybodaeth am amserau defnydd brig, pan fydd darpariaethau a dosbarthiadau yn fwyaf poblogaidd.*
*Bydd swyddogion yn defnyddio'r data a gynhyrchir gan y system i werthuso'r holl wasanaethau a phenderfynu pa rai i'w hehangu, a pha rai i'w lleihau. Mae'r system hefyd yn darparu gwybodaeth ddemograffig am ddefnyddwyr gwasanaeth, sy'n galluogi'r Cyngor i dargedu gwasanaethau ac ymgyrchoedd er mwyn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Defnyddir y data i wneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau i'w hehangu a pha rai i'w lleihau"*

4.6.4 <u>Nododd SAC bod angen gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy Gymru.</u>

Pwysleisiwyd bod proses Herio Perfformiad Gwasanaethau'r Cyngor yn fecanwaith effeithiol i adolygu perfformiad yn y maes hwn gyda'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yr Aelod Arweiniol a SAC yn mynychu'r sesiynau hyn. Mae'r adborth ar wasanaethau hamdden wedi bod yn dda ac mae gan yr Awdurdod hyder yn y model darparu, cynllunio, perfformiad a'r strategaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad yn pwysleisio fod gennym wasanaeth hamdden modern ac effeithiol sy'n darparu gwell cyfleusterau a chyfleoedd i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol na gwasanaethau'n cael eu heffeithio gan yr adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyflawn fel atodiad i'r adroddiad

Gan fod yr adroddiad 'er gwybodaeth yn unig' nid oes unrhyw effeithiau penodol – gweler Atodiad 2.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Dyma'r cyfle cyntaf i ymgynghori ar yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 10. Beth yw'r risgiau ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu'r pwerau archwilio o safbwynt monitro perfformiad.

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Arweiniol: Hamdden Masnachol
Rhif ffôn: 01824 712727